| | |
|---|---|
| **CYNGOR SIR PENFRO, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Cyngor Sir Penfro").** | **PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL of County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire, SA61 1TP (hereinafter referred to as "Pembrokeshire County Council".** |
| Rhoddir rhybudd yn unol ag adrannau 41 a 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Sir Penfro, fel y cynigiwr, wedi ymgynghori a'r bobl ofynnol, yn bwriadu: | Notice is given in accordance with sections 41 and 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Pembrokeshire County Council, having consulted such persons as required, proposes to: |
| 1. O'r 1af Medi 2022 ymlaen, sefydlu ysgol 3-11 newydd i fechgyn a merched ar safle Old Bush Farm, Penfro, Sir Benfro i'w chynnal gan Gyngor Sir Penfro. Categori iaith yr ysgol fydd Cyfrwng Cymraeg. | 1. As from 1st September 2022, establish a new 3-11 school for boys and girls on a site at Old Bush Farm, Pembroke, Pembrokeshire to be maintained by Pembrokeshire County Council. The language category of the school will be Welsh Medium. |
| 2. O'r 1af Medi 2022 ymlaen, newid cyfrwng yr addysgu yn Ysgol Gelli Aur / Golden Grove Community School, Orange Way, Penfro, SA71 4DP gyda'r effaith y bydd yn dod yn ysgol Cyfrwng Saesneg. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Penfro. | 2. As from 1st September 2022, change the medium of instruction at Ysgol Gelli Aur / Golden Grove Community School, Orange Way, Pembroke, SA71 4DP with the effect that it becomes an English Medium School. The school is maintained by Pembrokeshire County Council. |
| Fel y cynigiwr, cynhaliodd Cyngor Sir Penfro gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Ystyriwyd Adroddiad Ymgynghori oedd yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigiwr a safbwyntiau Estyn gan y Cyngor Sir ac mae ar gael ar wefan y Cyngor (www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ad-drefnu-ysgolion). | As proposer, Pembrokeshire County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn was considered by the County Council and is available on Council's website (www.pembrokeshire.gov.uk/have-your-say/school-reorganisation). |
| Bydd yr ysgol arfaethedig newydd yn Ysgol Gymunedol a'r Awdurdod Derbyn fydd Cyngor Sir Penfro. Ni fydd natur crefyddol gan yr ysgol newydd ac ni fydd y trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer bandio disgyblion. Y nifer a dderbynnir ar gyfer yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ynddi fydd 30. Uchafswm nifer disgyblion yr ysgol newydd fydd 210. | The proposed new school will be a Community School and the Admission Authority will be Pembrokeshire County Council. The new school will not have a religious character and admission arrangements will not make provision for pupil banding. The admission number for the new school in the first school year in which the proposals will be implemented will be 30. The new school's pupil capacity will be 210. |
| Bydd y newid arfaethedig i Ysgol Gelli Aur / Golden Grove Community School yn arwain at gynnydd o fwy na 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg, a thrwy hynny yr ysgol yn dod yn Ysgol Cyfrwng Saesneg. Y nifer a dderbynnir ar gyfer yr ysgol yn y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu ynddi fydd 55. | The proposed change to Ysgol Gelli Aur / Golden Grove Community School will result in an increase of more than 20% in the teaching which is conducted through the medium of English, the school thereby becoming an English Medium School.<br>The Admission Number for the school in the first year in which the proposals will be implemented will be 55. |
| Bydd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod fel yr oedd ar ddyddiad gweithredu'r cynnig. | Home to School Transport will be provided in accordance with the Authority's Home to School Transport Policy as at the date of the implementation of the proposal. |

Ymhen cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw 7 Ebrill 2020, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.
Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Y Cyfarwyddwr dros dro Plant ac Ysgolion, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP neu anfon e-bost at:
educationconsultations@pembrokeshire.gov.uk

Arwyddwyd: 

STEVEN RICHARDS-DOWNES,
Cyfarwyddwr dros dro Plant ac Ysgolion

11 Mawrth 2020

**Nodyn Esboniadol:**
**(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Rhybudd ond fe'i cynigir fel eglurhad)**

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig rhoi gorau i'r ddarpariaeth Ddwy Ffrwd yn Ysgol Gelli Aur / Golden Grove School, ar 31ain Awst 2022 a chynigir, o'r 1af Fedi 2022 ymlaen:

a) Sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed newydd ar safle Old Bush Farm, Penfro.  Bydd yr ysgol newydd yn ysgol gymunedol.
b) Newid cyfrwng iaith Ysgol Gelli Aur / Golden Grove School i fod yn ysgol Cyfrwng Saesneg.

Mae'r diffiniadau cyfredol ar gyfer 'Cyfrwng Cymraeg' a 'Cyfrwng Saesneg' yn ysgolion cynradd fel a ganlyn ac maent yn deillio o ddogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif 023/2007.

| **Cyfrwng Cymraeg** | |
|---|---|
| **Cwricwlwm** | **Canlyniadau** |
| Cyfnod Sylfaen – cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cyfnod Allweddol 2 (CA2) –<br>O leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Bydd disgyblion, beth bynnag iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant ar ddiwedd CA2 wedi cyrraedd yr un safon yn Saesneg a disgyblion mewn ysgolion sydd yn bennaf cyfrwng Saesneg. |

| **Cyfrwng Saesneg** | |
|---|---|
| **Cwricwlwm** | **Canlyniadau** |
| Cyfnod Sylfaen – | Disgwylir y bydd y disgyblion yn |

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 7 April 2020, any person may object to the proposals.
Objections should be sent to: The Interim Director for Children & Schools, County Hall, Haverfordwest, SA61 1TP or email:
educationconsultations@pembrokeshire.gov.uk

Signed: 

STEVEN RICHARDS-DOWNES,
Acting Director for Children & Schools

11 March 2020

**Explanatory Note:**
**(This explanatory note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)**

Pembrokeshire County Council proposes to cease the Dual Stream provision at Ysgol Gelli Aur / Golden Grove Community School with effect from 31st August 2022 and proposes, as from 1st September 2022:
a) to establish a new 3-11 Welsh Medium school on land at Old Bush Farm, Pembroke.  The new school will be a Community School;
b) That Ysgol Gelli Aur / Golden Grove Community School becomes an English Medium school.

The current definitions of 'Welsh Medium (WM)' and 'English Medium (EM)' in primary school settings are as follows and derive from Welsh Government's Information Document No: 023/2007:

| **Welsh Medium** | |
|---|---|
| **Curriculum** | **Outcomes** |
| Foundation Stage – medium of Welsh.<br><br>Key Stage 2 (KS2) – at least 70% of teaching through the medium of Welsh. | Pupils, regardless of home language will be able to transfer to Welsh medium secondary provision and by the end of KS2 will have reached equivalent standard in English to that reached by pupils in predominantly English medium schools. |

| **English Medium** | |
|---|---|
| **Curriculum** | **Outcomes** |
| Foundation Phase – | Normal expectation is that pupils will transfer |

| | |
|---|---|
| Pob disgybl yn cael profiad o'r meysydd dysgu trwy gyfrwng y Saesneg.<br><br>Cyfnod Allweddol 2 – Dysgir y Gymraeg fel ail iaith. Llai na 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, gan barhau i ddysgu Cymraeg fel ail iaith. |

| | |
|---|---|
| All pupils experience areas of learning through the medium of English.<br><br>Key Stage 2 (KS2) – Welsh taught as a second language. Less than 20% of the teaching is through the medium of Welsh. | to English medium secondary provision and continue to learn predominantly through the medium of English, learning Welsh as a second language. |

Mewn perthynas a'r ysgol newydd, Cyngor Sir Penfro fydd yr Awdurdod Derbyn; bydd y disgyblion newydd a dderbynnir yn mynychu (yn amodol ar ddewis y rhieni) yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor Sir Penfro. Yn amodol ar ddewis rhieni, bwriedir y bydd disgyblion sy'n mynychu ffrwd Cymraeg Ysgol Gelli Aur / Golden Grove School cyn dyddiad y gweithred yn cael eu derbyn i'r ysgol newydd.

In relation to the new school, the County Council will be the Admissions Authority; as such new pupil entrants will attend (subject to parental preference) in accordance with the Council's Admissions Policy. Subject to parental preference, it is intended that pupils attending the Welsh stream of Ysgol Gelli Aur/Golden Grove School immediately prior to the date of implementation will be admitted to the new school.

Bydd Corff Llywodraethol Dros Dro'r ysgol newydd yn cael ei sefydlu tua 12 mis cyn y dyddiad gweithredu a bydd yn gyfrifol am:

- Benodi'r Pennaeth
- Enwi'r ysgol newydd
- Sefydlu gweledigaeth ac ethos
- Gwneud trefniadau sefydliadol yn cynnwys cwricwlwm ac adeiladau
- Agor yr ysgol hyd at yr amser y bydd y corff llywodraethol yn barod i weithredu.

The Temporary Governing Body of the new school will be established approximately 12 months prior to the implementation date and will be responsible for:

- Appointment of Headteacher
- Naming of the new school
- Establishing the vision and ethos
- Making organisational arrangements including curriculum and accommodation
- Responsibility for the opening of the new school until such time as the new governing body is in place.